Ar hyn o bryd, dim ond tri chynllun swyddogol gan Lywodraeth Cymru neu a noddir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael ar gyfer prynu tai yng Nghymru, ac mae'r nifer sydd wedi manteisio ar y cynlluniau yn y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf wedi bod yn siomedig. Dim ond 30 o gartrefi sydd wedi'u prynu gyda chymorth y cynllun Cymorth Prynu.² a dim ond 17 yn 2012/13.³ Nid yw Llywodraeth Cymru'n monitro'r cynllun Rhent yn Gyntaf, ac felly nid oes ffigurau ar gael yn hawdd⁴ Dim ond 560 o gartrefi newydd fydd yn cael eu hadeiladu ar gyfer Rhentu Canolradd yn sgil Partneriaeth Tai Cymru.

Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai ar y pryd, y byddai Llywodraeth Cymru'n lansio cynllun NewBuy newydd a fyddai'n gwarantu morgaeisi hyd at 95% o werth hyd at 3,000 o gartrefi newydd dros dair blynedd.⁵ Cyhoeddodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai presennol, ddyddiad gweithredu o 3 Mehefin 2013 er y bwriad i roi'r cynllun ar waith yng ngwanwyn 2013.⁶ Fodd bynnag, yn y cyfnod dilynol, gohiriwyd y cynllun am

¹ *Papur Gwyn Cartrefu u Gymru*, Mai 2012, tud.5

² *Cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad 61189*, 19 Medi, 2012

³ *Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2013*, tud.11

⁴ *Cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad 64312*, 18 Mawrth 2013

⁵ *Cynllun gwarant morgais yn hwb i brynwyr tai ac adeiladwyr*, Datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru, 13 Tachwedd 2012

⁶ *Cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad 62078*, 5 Chwefror 2013

gyfnod amhenodol wrth i Lywodraeth Cymru honni fod rhanddeiliaid allweddol wedi tynnu'n ôl.

Am fuddsoddiad bach iawn mewn gwarantu'r mathau hyn o forgeisi, gallai'r farchnad dai dderbyn adnoddau y mae gwir angen amdanynt, a byddai hyn yn hybu'r diwydiant adeiladu, a sbarduno'r economi drwy hynny.

Hefyd, mae llawer o dai gwag ac felly heb fod ar gael fel cartrefi. Dywedodd Huw Lewis AC wrth y Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Ionawr 2013 yr amcangyfrifir bod yna 23,000 o dai gwag ar hyn o bryd ⁷. Mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio y bydd 5,000 o'r rhain ar gael erbyn diwedd Ebrill 2016.

Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod bod canlyniadau difrifol yn deillio o farchnad dai sy'n methu sicrhau cartrefi sydd eu hangen ar bobl o ran symudedd cymdeithasol, ar gyfer swyddi a thwf.”⁸ Cyhoeddodd becyn diwygiadau i geisio rhoi bywyd newydd i'r farchnad dai, gan gynnwys adnewyddu Hawl i Brynu. Rydym am weld yr un camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i gefnogi marchnad dai Cymru.

⁷ *Cofnod y Trafodion*, 8 Ionawr 2013

⁸ *Laying the Foundations: A Housing Strategy for England*, Tachwedd 2011, tud.18

Gweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn rhoi cychwyn gwych i bobl mewn bywyd, drwy roi hawl i rentu a'u hannog i fuddsoddi mewn bod yn berchnogion ar eu heiddo eu hunain, ynghyd â chreu amgylchedd lle mae'r rhai sydd am ddringo'r ysgol eiddo'n cael y cyfle hwnnw ac yn cael cefnogaeth dda.

Credwn ei bod yn hen bryd i dai gael ei roi ar frig yr agenda yng Nghymru. Bydd adeiladu cartrefi yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau difrifol sy'n cael eu hanwybyddu'n gyson. Mae mwy i gartrefi na brics a mortar; bydd cartref da yn datrys problemau iechyd, bydd ffrwd gyson o adeiladu tai yn hybu'r economi a bydd y naill a'r llall yn helpu i drechu tlodi a digartrefedd; ynghyd â darparu sefydlogrwydd.

Mae'r Blaid Geidwadol ledled y DU wedi pwysleisio adeiladu cartrefi erioed gan ei bod yn cydnabod y manteision i bobl a'r economi. Pan ddechreuodd rhaglen dai oes Macmillan, gosodwyd targedau uchel, a llwyddwyd i ragori'n sylweddol arnynt. Roedd tai cymdeithasol nodwedd flaenllaw.⁹

Y Comisiwn Tai

Byddem yn sefydlu **Comisiwn Tai Cymru** gydag aelodau o bob rhan o'r sector tai. Byddai'r Comisiwn yn datblygu syniadau seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gweithio gyda ni i lunio strategaeth dai gyffredinol.

Gan weithio gyda'r Comisiwn, mae'n rhaid i ni:

- **Cynyddu'r cyflenwad tai.** Mae'r galw uchel am dai cymdeithasol, tanfuddsoddi ers datganoli, y dirywiad economaidd ers 2008 a chostau rheoleiddio cynyddol wedi arwain at ostyngiad cyffredinol o ran adeiladu tai. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld ymdrech ar unwaith gan Lywodraeth Cymru i adfer y diwydiant adeiladu tai o'i sefyllfa waethaf erioed.

⁹ *The Politics of Housing*, Peter Shapely, tud.37

- **Cynyddu nifer y cynlluniau tai sydd ar gael.** Gan roi blaenoriaeth i gynllun gwarant morgais, byddem hefyd yn sicrhau y datblygir cynllun ecwiti a rennir wedi'i fodelu ar arferion gorau o rannau eraill o'r DU.
- **Adnewyddu Hawl i Brynu.** Dylai tenantiaid tai cymdeithasol sydd wedi treulio blynyddoedd yn troi eu tai yn gartrefi gael y cyfle i fod yn berchnogion tai. Yna, gellid neilltuo'r arian a dderbyniwyd gan Hawl i Brynu i i adeiladu tai cymdeithasol newydd.
- **Defnyddio cartrefi gwag unwaith eto.** Ym mis Mehefin 2013, roedd 32,403 o gartrefi gwag ledled Cymru.¹⁰ Rydym yn cefnogi menter Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto drwy fenthyciadau di-log i landlordiaid. Fodd bynnag, credwn nad yw'r targed o sicrhau y defnyddir 5,000 o gartrefi gwag unwaith eto erbyn diwedd 2016 yn ddigon uchelgeisiol. Yn aml, mae'n ymwneud â deall pam mae cartref yn wag – nid oherwydd ei fod yn dadfeilio neu nad yw'r perchennog yn fodlon cydweithredu yw'r rheswm bob tro. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn deall hyn ac yn cefnogi dulliau amrywiol o fynd i'r afael â'r broblem hon.

¹⁰ *Dengys ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan bob un o'r 22 awdurdod lleol bod 32,403 o gartrefi gwag wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, ym Mhowys ac Ynys Môn, nid yw'r awdurdodau'n cofnodi'r cartrefi sy'n wag gan y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn eu hardaloedd. Nid oes cronfa ddata ganolog. Mae hyn hefyd wedi cynyddu dros 7,000 ers mis Ionawr 2013.*

Targedau

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am gynyddu'r cyflenwad tai. Mae'n amlwg bod argyfwng ym maes adeiladu tai o ystyried bod oddeutu 91,000 o bobl yng Nghymru ar restrau aros landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu'r cyngor¹¹, ac mai dim ond 4,971 o gartrefi y dechreuwyd eu hadeiladu yn 2011-12. Mae'n rhaid i ni adeiladu mwy o dai ar sail asesiadau awdurdodau lleol o'r anghenion tai.

Prif Dargedau

1. Adeiladu o leiaf 14,000 o gartrefi bob blwyddyn drwy:
 - a. Model hyblyg, ond safonol, ar gyfer dyraniadau tai cymdeithasol mewn datblygiadau newydd
 - b. Defnyddio arian o werthiannau Hawl i Brynu i ailgyflenwi'r stoc
 - c. Model perchnogaeth tai cost isel
 - d. Targedau marchnad gyfan
2. Dull cydgysylltiedig gyda Llywodraeth Cymru, y diwydiant adeiladu, y sector rhentu preifat, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol a benthycwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r tai sydd eu hangen ar bobl Cymru.
3. Dull sy'n canolbwyntio ar bobl wrth ystyried tai. Yn rhy aml, mae prosesau a thargedau yn cael blaenoriaeth dros bobl. Mae tai yn angen dynol sylfaenol ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu.
4. Hwb i'r economi. Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar brosiect adeiladu yng Nghymru, mae'r economi'n elwa o £1.70.¹²
5. Y mwyafrif llethol o gartrefi gwag yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (os ydynt yn cael eu rhentu'n breifat) neu'r System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (os ydynt yn eiddo preifat) a'u darparu o'r newydd i denantiaid tai cymdeithasol, neu eu defnyddio fel tai rhent canolradd.

¹¹ *Maniffesto Llywodraeth Leol Tai Cymunedol Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru*, Mai 2012

¹² *Maniffesto Federation of Master Builders*, 2011

Llywodraeth Cymru

Mae tai yn un o gyfrifoldebau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw darparu ac adnewyddu tai fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad, ynghyd â rheoliadau adeiladu.

Amlygodd adolygiad Tai y DU yn 2012 mai Llywodraeth Cymru roddodd flaenoriaeth isel i dai yn ei chyllidebau cyffredinol, er bod Cymru ynghlwm i ddeddfwriaeth sylfaenol San Steffan, ac erbyn 2009/10 roedd ganddi'r lefel gyfrannol isaf o wariant ar dai o bell ffordd ymhlith pedair gwlad y DU.¹³

Argymhellodd y Comisiwn Ewropeaidd y dylai'r DU, ac felly Cymru, fynd i'r afael ag effaith ansefydlogi prisiau tai uchel a chyfnewidiol a dyledion uchel aelwydydd drwy weithredu rhaglen diwygio tai gynhwysol i gynyddu'r cyflenwad tai a lliniaru problemau fforddiadwyedd a'r angen i'r wladwriaeth roi cymhorthdal ar gyfer tai.¹⁴

Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru ddau gynllun prynu tai y gall cymdeithasau tai ac awdurdodau asesu ar eu cyfer drwy'r Grant Tai Cymdeithasol. Gellir defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol yn rhannol i ddarparu'r cynllun Rhentu Canolradd (opsiwn a gynigir hefyd gan gynllun Rhent yn Gyntaf Partneriaeth Tai Cymru ac ecwiti a rennir Cymorth Prynu.

Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol sicrhau bod y naill gynllun na'r llall ar gael. Nid oes fawr neb wedi manteisio ar y cynllun Cymorth Prynu yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda dim ond 33 uned yn cael eu cymeradwyo yn 2011/12.¹⁵ Yn 2012/13, dim ond 19 o geisiadau Cymorth Prynu a gwblhawyd.¹⁶ Nid yw Llywodraeth Cymru'n monitro nac yn cadw gwybodaeth am y cynllun rhentu canolradd Rhent yn Gyntaf.¹⁷

¹³ *Papur Briffio Adolygiad Tai 2012 y DU*, Hal Pawson a Steve Wilcox

¹⁴ *Y Comisiwn Ewropeaidd, Argymhelliad y Cyngor ar raglen diwygio cenedlaethol 2012 y DU*, Mai 2012, tud.6

¹⁵ *Cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad 61189*, 19 Medi 2012

¹⁶ *Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2013*, tud.11

¹⁷ *Cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad 64312*, 18 Mawrth 2013

Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflwyno cynllun gwarant morgais newydd a fyddai'n gwarantu morgeisi i hyd at 95% o bris tai newydd. Roedd y cynllun, NewBuy Cymru, i fod i ddechrau ar 3 Mehefin 2013,¹⁸ gan sicrhau hyd at 3,000 o gartrefi newydd dros dair blynedd. Fel yr eglurir yn ddiweddarach, ni wyddom o hyd a fydd y cynllun yn cael ei roi ar waith yn y pen draw, Yn olaf, ar 17 Gorffennaf 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Tai y byddai'n rhoi cynllun ecwiti a rennir – Cymorth i Brynu Cymru – ar waith yn ddiweddarach yn 2013.¹⁹

Astudiaeth Achos: Prynwyr tro cyntaf yng Nghymru

£164,000 yw pris cyfartalog tŷ yng Nghymru ²⁰ a £24,076 yw'r cyflog cyfartalog.²¹ Mae hyn yn golygu fod prisiau tai dros wyth a hanner gwaith y cyflog cyfartalog.

Mae cyfleuster canfod morgais HSBC yn cynnig morgeisi ar bris o £164,000, ond dim ond gyda blaendal o fwy nag £20,000.²²

Ar sail morgais 35 mlynedd, bydda hyn yn golygu ad-daliadau o tua £695.90 y mis. Gan ddefnyddio cyflog net ein gweithwyr cyfartalog, byddent yn ennill £1,599.12 y mis ym mlwyddyn dreth 2013/14. Byddai 51% o'u henillion yn cael ei wario ar adalu eu morgais bob mis.

Mae hyn yn golygu fod prynu tŷ i unrhyw un sy'n byw ar eu pen eu hunain yn anfforddiadwy bron iawn. Mae gallu talu blaendal o £20,000 yn gynyddol anarferol hefyd mewn cyfnod economaidd anodd. Byddai'n rhaid i'r prynwyr tŷ cyffredin gynilo £500 y mis am dros tair blynedd, yn ogystal â thalu rhent cyn gallu gwneud cais am forgais o'r fath.

Mae prynwyr tro cyntaf yn debyg o fod am fyw yn rhywle lle gallant gael eu traed ar yr ysgol eiddo heb orfod aros am gymaint o amser i gynilo'r arian sydd ei angen. Mae cynllun Adeiladu Newydd gyda gwarant morgais neu opsiynau ecwiti a rennir, yn cynnig perchnogaeth tro cyntaf o'r fath, sy'n angenrheidiol i helpu prynwyr tro cyntaf.

¹⁸ *Lansio NewBuy Cymru*, Datganiad Ysgrifenedig, Carl Sargent, 20 Mawrth 2013

¹⁹ *Sbarduno Adeiladu Cartrefi yng Nghymru*, Datganiad y Gweinidog, 17 Gorffennaf 2013

²⁰ ONS, *Mynegai Prisiau Tai*, Awst 2013

²¹ ONS, *Enillion wythnosol cyfartlog*, Awst 2013

²² *Mortgage Finder*, Gwefan HSBC, <https://www.halifax.co.uk/mortgages/mortgage-calculator/calculator.asp>, fel ar 5 Tachwedd 2013)

Adeiladu a phrynu tai

Prynu tai a benthyciadau morgais

- Yn 2011, cyhoeddodd banciau Clydesdale a Yorkshire mai cyfartaledd oedran cyfartalog prynwyr tai yng Nghymru oedd **36**.²³
- Yn fwy diweddar, ymddengys fod hyn wedi sefydlu o gwmpas **29** oed.²⁴
- Datgelodd arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain 2012 yr hoffai **86%** o bobl Prydain brynu eu cartref eu hunain yn hytrach na rhentu.²⁵
- Datgelodd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi fod **84%** o oedolion yng Nghymru'n gobeithio bod yn berchnogion tai ymhen deng mlynedd.²⁶
- Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n rhentu'n breifat neu'n rhannu gyda theulu neu ffrindiau dan 35 oed. Byddai dos hanner y rheini - **54%** yn hoffi bod yn berchnogion tai; ond dim ond **33%** sy'n disgwyl i hynny ddigwydd.²⁷

Fel y gwelir yn Atodiad 1, mae nifer y cartrefi sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol, yn enwedig yn y sector tai cymdeithasol. Mae'r sefyllfa economaidd yn y DU yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith heb os, ond mae datblygwyr sector preifat wedi dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn adeiladu yng Nghymru oherwydd gofynion awdurdodau lleol a'r amgylchedd rheoleiddio yng Nghymru. Mae'r sector rhentu cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn rhybuddio am argyfwng tai cymdeithasol ers dros ddegawd, wrth i gyllid grantiau tai gael ei gwtogi.

²³ Banciau Clydesdale a Yorkshire, Ebrill 2012

²⁴ *2013 sees first time buyers flying onto the ladder*, Datganiad i'r Wasg Halifax, 29 Gorffennaf 2013

²⁵ *British Social Attitudes: the 29th Report*, London: NatCen Social Research 2012, Park A, Clery E, Curtice J, Phillips M ac Utting D.

²⁶ *Welsh borrowers have higher aspirations for home-ownership than Great Britain overall*, 28 Mai 2013

²⁷ *Ibid*

Cyflenwad tai fforddiadwy

Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol yn y cyfnod cynllunio i ganran o dai newydd a adeiladir fod yn dai fforddiadwy. Gall hyn olygu nad yw'r datblygiad yn hyfyw i'r datblygwr.

Yng Nghaerdydd, mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu cyfradd safonol o 40% ar gyfer tai fforddiadwy mewn datblygiadau newydd o 10 uned neu fwy. Yn Sir Benfro, mae'n ofynnol i 50% fod yn dai fforddiadwy.²⁸ Mae awdurdodau eraill yn gwneud cyfran lai yn ofynnol, fel Sir Ddinbych lle mae 30% o unrhyw ddatblygiad dros bedair uned yn gorfod bod yn dai fforddiadwy. Rydym yn cydnabod y bydd nifer y tai fforddiadwy newydd yn cynyddu pe bai awdurdodau lleol yn gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod eu cynigion yn hyfyw, yn hytrach na phennu canran, sy'n gallu arwain at ganlyniad anfwriadol, sef cyfyngu ar ddatblygu.

Mae adroddiad chwarterol y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ar gyfer mis Medi 2012 wedi dangos bod nifer y ceisiadau datblygu a gymeradwywyd ar gyfer tai cymdeithasol wedi gostwng 20% tra bod cynnydd wedi bod yn y rhan fwyaf o ranbarthau a gwledydd eraill y DU, gan gynnwys yr Alban²⁹ Mae nifer y prosiectau tai a gafodd ganiatâd cynllunio manwl yng Nghymru wedi bod yn gostwng a chyrhaeddodd y lefel isaf erioed o 17 yn yr un chwarter ag y cafwyd cynnydd mewn ranbarthau eraill.³⁰

Clywodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol dystiolaeth gan Alluogwr Tai Gwledig yn ei adroddiad *Ymchwiliad i dai fforddiadwy yng Nghymru*³¹ bod angen i Lywodraeth Cymru fynd ati i ryddhau tir sy'n eiddo i'r llywodraeth ar gyfer datblygiadau tai fforddiadwy.

²⁸ *South and West Wales Affordable Housing Targets and Thresholds*, Asbri Planning, Mawrth 2013

²⁹ *New Housing Pipeline Q2 2012 Report*, Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Medi 2012, tud.3

³⁰ *Ibid*

³¹ *Ymchwiliad i dai fforddiadwy yng Nghymru*, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Ebrill 2012, tud.24

Perchentyaeth a rhenti sefydlog

Dewis pob aelwyd yw penderfynu pa opsiwn tai sy'n addas ar eu cyfer hwy. Fodd bynnag, ni ddylai'r gallu i ddewis perchentyaeth gael ei lesteirio os mai dyna eu dewis. Yn y DU, mae cyfran uchel o berchentyaeth o gymharu â rhentu preifat. Fodd bynnag, o gymharu â gwledydd eraill, er enghraifft yr Almaen, mae'r sefyllfa i'r gwrthwyneb, oherwydd natur y strwythur diogelwch tenantiaeth.

Mae'n rhaid i ni weithio gyda'r sector rhentu preifat, landlordiaid cymdeithasol, adeiladwyr cartrefi a benthydwyr i hyrwyddo'r holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer tai yng Nghymru. Os ydym am gael system dai sy'n diwallu anghenion pobl yng Nghymru, mae'n rhaid i ni ddarparu dewisiadau ymarferol amgen i brynu'n llwyr ac ymuno â rhestr aros am dai.

Tai wrth wraidd cymunedau

Ni ddylid adeiladu tai er mwyn cyrraedd targedau'n unig. Cydnabuwyd dros y blynyddoedd na ddylid adeiladu tai cymdeithasol mewn clystyrau ar eu pen eu hunain, a bod cymunedau go iawn yn gymunedau deiliadaeth gymysg. Rhoddwyd rhwymedigaethau cynllunio Adran 106 ar geisiadau cynllunio am ddatblygu tai er mwyn cynyddu cyflenwad tai fforddiadwy a'r gyfran o dai fforddiadwy mewn datblygiadau newydd.

Fodd bynnag, yn aml ni chydabyddir ymhle y mae'r galw am dai, neu'r mathau o amwynderau sy'n ofynnol i bobl wneud eu cymunedau'n rhan o'u bywydau. Heb gynllunio priodol, yn aml gall datblygiadau preswyl gael eu gadael heb fynediad digonol i gysylltiadau trafniadaeth a all effeithio ar allu pobl i gyrraedd y gwaith, neu siopau – yn aml nid oes gan ddatblygiadau siop gornel i brynu peint o laeth hyd yn oed.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod yr egwyddor bwysig hon ac fel rhan o'n strategaeth dai byddem yn cynnal arolwg o anghenion tai er mwyn gweld ymhle y mae angen tai, ac ymhle y mae'r angen yn ddybryd. Credwn hefyd bod yn rhaid cynllunio'n ofodol ar lefel gymunedol yn hytrach nag mewn Cynllun Datblygu Lleol o'r brig i lawr.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymgynghori â'r diwydiant tai yn eang i sicrhau y gellid datblygu Adran 106 ymarferol, gydag asesiadau hyfywedd tai fforddiadwy wrth ei wraidd i'w ddefnyddio gan fenthycwyr, datblygwyr a chynllunwyr fel ei gilydd.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod bod cymunedau wrth wraidd cyfiawnder cymdeithasol, a bod tai yn hollbwysig i sefydlu cymunedau diogel.

Edrychodd polisi'r Ceidwadwyr Cymreig, *A Vision for the Welsh High Street*, ar elfen bwysig arall o'r gymuned; sef adfywio'r stryd fawr a sicrhau ei bod yn goroesi yn yr oes ddigidol. Un o elfennau canolog

y polisi hwn yw hyrwyddo stryd fawr defnydd cymysg yng nghanol trefi. Mae Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) yn pwysleisio hyn, gan nodi: *“Bringing housing into the town centre in above-shop premises and converted surplus retail space is very much part of any future we can craft for our High Streets.”*³²

Mae'n destun pryder mai dim ond pedwar o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cofnodi'r cartrefi gwag sydd i'w cael uwchben eiddo manwerthu.³³ Mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn, a hoffai'r Ceidwadwyr Cymreig weld y lleoliadau hyn yn cael eu defnyddio i ddod ag ymdeimlad o berchnogaeth yn ôl i'n strydoedd mawr. Yn y lle cyntaf, byddem yn dymuno gweld y mannau hyn yn cael eu hadfywio er mwyn helpu i adfywio'r mannau hyn i ysgafnhau'r ddatrys y prinder tai, a chymryd mwy o amser yn y dyfodol i gynllunio canolfannau rhyngweithio rhwng pobl lle gall tai, mannau manwerthu a chymunedol oll fodoli fel un.

Gan gydnabod y problemau arbennig o ran tai fforddiadwy a achosir gan natur wledig rhai ardaloedd a phrinder tai, byddem yn ailfywiogi a chryfhau rolau galluogwyr tai gwledig a swyddogion cartrefi gwag, ac yn ystyried darparu ar sail rhwydwaith rhanbarthol Cymru gyfan o dai gwledig.

Mae datblygiad tai yng Nghymru wedi'i lesteirio gam amgylchedd rheoleiddio ar lefel ddatganoledig. Yr hyn sydd ei angen ar Gymru yw gwell rheoleiddio, nid mwy o reoleiddio. Os ydym am ddatrys ein hargyfwng tai yng Nghymru, mae'n rhaid i ni feddwl beth fydd yn gwneud gwahaniaeth i'n cyflenwad tai yn ogystal â'r mesurau gorau ar gyfer cymunedau a thai diogel.

³² *Cartref*, Dave Adamson, Awst/Medi 2012, tud.11

³³ *Dim ond awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Abertawe, Torfaen a Wrecsam sy'n gallu nodi pa rai o'r heiddo gwag sydd uchben eiddo manwerthu. Cafwyd y wybodaeth yn sgil ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r 22 awdurdod lleol.*

Ymddiriedolaethau Preifat

Mae buddsoddiad mewn tai cymdeithasol yn farchnad newydd a sefydlwyd 12 mlynedd yn ôl ac sydd werth £165 miliwn ar hyn o bryd.³⁴ Mae mwyafrif y cytundebau sy'n cael eu harwyddo ar hyn o bryd yn rhai pwrpasol. Mae'r math o fuddsoddwyr y maent yn eu denu yn gweld gonestrwydd a chywirdeb y buddsoddiadau hyn gan eu bod yn cynorthwyo i ddatblygu busnesau a phobl ym mhob ardal.

Isod, ceir dwy astudiaeth achos o ymddiriedolaethau preifat sy'n gweithio i ddatblygu modelau newydd, hyfyw ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol a gweithio ledled y sector gyda'r holl randdeiliaid.

Astudiaeth Achos: Houses for Homes

Sefydlodd Phil Shanks, Prif Swyddog Gweithredol Houses for Homes yr Ymddiriedolaeth yn 2011 ar ôl gweithio yn y Sector Tai a sefydlu Cymdeithas Dai yn y gorffennol.

Model Partneriaeth Preifat Cyhoeddus yw Houses for Homes sydd wedi mentro drwy ddatblygu partneriaeth â banc buddsoddi i sicrhau swm mawr o arian i'w fuddsoddi mewn tai cymdeithasol. Un o'u hamcanion allweddol yw denu buddsoddiad preifat i helpu i ddarparu polisi tai cymdeithasol, gan alluogi i bwrs y wlad gael ei ddefnyddio'n fwy cyfrifol.³⁵

Sylwodd Houses for Homes nad oedd gwahanol rannau o'r sector fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol wedi dod at ei gilydd i gydweithio. Roedd cynlluniau strategol awdurdodau lleol yn ei gwneud yn anodd adeiladu cartrefi a chael tenantiaid iddynt ar sail amserlen a fyddai'n sicrhau y gellid gwario cyllid yn unol â thelerau'r cytundeb gyda'r banc.

Gwelodd drwy brynu'r tir a threfnu adeiladwyr i adeiladu'r eiddo, y gallant gael gwared ar rannau o'r broses, gydag adeiladwyr yn rhoi gostyngiadau gan fod eu gorbenion hefyd yn gostwng. Yn ei dro, roedd hyn yn gwneud rhenti is yn bosibl. Ar ôl recriwtio Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, roeddynt yn gallu mynd â'r cynnyrch gorffenedig i awdurdod lleol, a rhoi prydles 10 mlynedd, gyda'r awdurdod lleol yn cael y cyfle i adnewyddu wedi hynny.

³⁴ *Asiant Capital*, Cynllun Busnes, cytunwyd arno gan y Cyfarwyddwr

³⁵ *Gwefan Houses for Homes* <http://www.houses4homes.co.uk/>, fel ar 1 Mawrth 2013

Yn Lloegr, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y cyflenwad o dai, ond pan gysylltodd Phil Shanks â phobl yng Nghymru, gwelodd bod y drws wedi'i gau'n dynn ac na allai roi'r cynllun ar waith. Dywedodd:

“[I am] a funder desperate for an opportunity to invest and who cannot see a way to do so for at least a couple of years... Wales must take urgent and radical steps to engage, coordinate and direct public and private funds to deliver the housing that Wales desperately needs.”

Dyma un o nifer o fodelau cyllido creadigol sy'n cael eu pwysu a'u mesur mewn ymdrech i ddarparu tai mwy fforddiadwy.

Astudiaeth Achos: Asiant Capital

Mae grŵp buddsoddi cymdeithasol newydd, Asiant Capital, wedi pennu nodau uchelgeisiol ar gyfer gwrthdroi'r dirywiad ym mhroffil tai Cymru. Mae'r grŵp am newid y canlyniadau masnachol, cymdeithasol ac economaidd drwy greu sefydliad i gyllido newid cymdeithasol, gyda'r gallu i roi strategaethau ar waith i'r perwyl hwnnw.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Adfywio cymunedau mewn partneriaeth gydweithredol
- Ailintegreiddio eiddo masnachol a phreswyl gwag/gwag yn yr hirdymor
- Buddsoddiad eiddo tiriog mewn tai fforddiadwy

Bydd Asiant Capital yn hyrwyddo a chydgysylltu prosiectau sydd â bwlbh cyllido, er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddiannus.

Sut byddant yn gweithredu:

Cyflwyniadau

Mae gan Asiant gyfleoedd sydd wedi'u cymhwyso eisoes drwy gysylltiadau proffesiynol o gyfrifyddion i gorfforaethau. Un o'r cwmnïau hyn yw UnLtd sydd wedi cynorthwyo llawer o sefydliadau llai ers degawd a mwy. Mae'r berthynas hon yn ganlyniad i un o'u cyfarwyddwyr yn ymuno â'r bwrdd buddsoddi a chynghori.

Diwydrwydd Daladwy

Ar ôl i gynghorwr Asiant gael ei gyflwyno i'r darpar sefydliad, rydym yn gweithio'n gyflym i ddadansoddi pa lefel o gymorth a chyllid sydd ei hangen arnynt. Ar ôl cwblhau'r cam hwn, byddant yn penderfynu pa bartneriaid eraill fyddai â diddordeb. Os yw Asiant yn credu nad yw'r cwmni dan sylw'n gymwys, bydd yn eu cyfeirio pryd bynnag y bo modd at ffynhonnell arbenigol arall.

Cytundebol

Mae'r cwmni llwyddiannus yn mynd ymlaen i'r lefel ystod cyllid lle bydd y manylion cytundebol yn cael eu cwblhau.

Mae Asiant yn ceisio cefnogi mentrau i alluogi iddynt fod yn fwy llwyddiannus mewn cyfnod byrrach.

(Ffynhonnell: cynllun busnes Asiant, cytunwyd ar y dyfyniadau gan y Cyfarwyddwr)

Cynlluniau Prynu Tai y DU

Llywodraeth Cymru

Cymorth Prynu

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i eiddo gwag a newydd mewn ardaloedd dynodedig, o fewn dalgylch awdurdod lleol. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud cais allu cael gafael ar 70% o'r pris prynu drwy forgais neu gynilion, bod mewn sefyllfa ariannol gadarn, ond yn methu prynu cartref heb gymorth y cynllun hwn.

Rhent Canolradd

Opsiwn â chymhorthdal yw rhent canolradd sy'n cynorthwyo tenantiaid i dalu llai na rhent y farchnad, tra'n rhoi'r cyfle iddynt brynu'r cartref yn y dyfodol.

1. Rhent yn Gyntaf

Mae Rhent yn Gyntaf yn gweithredu drwy'r gymdeithas dai sy'n caffael neu'n adeiladu cartref gyda chymorth grant, a gall tenant cymwys ei rentu. Maent yn gorfod talu 'rhent canolradd' (dim mwy na 80% o rent marchnad breifat ac o fewn y Lwfans Tai Lleol perthnasol).

Os yw tenant yn dewis prynu ac mae gwerth yr eiddo ar y farchnad wedi cynyddu ers dyddiad dechrau eu tenantiaeth, bydd 50% o'r cynnydd hwn yng ngwerth yr eiddo yn cael ei drin fel cyfran ecwiti ar gyfer y tenant ar ffurf blaendal sydd wedi'i dalu eisoes, gan ostwng cymhareb benthyciad-i-werth unrhyw forgais a geir o bosibl.

Yna, gall y gymdeithas dai 'ailgylchu' yr arian o brynu'r tŷ a'i roi yn ôl i'w Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer tai fforddiadwy pellach.³⁶

³⁶ *Rent First – intermediate rent – Final Guidance (Saesneg yn unig)*, Llywodraeth Cymru, 2011, tud.9

2. Partneriaeth Tai Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Tai Cymru ym mis Awst 2011, ac mae'n cael ei chyllido drwy gyfuniad o gyllid grant Llywodraeth Cymru o £3 miliwn, benthyciad o £12 miliwn gan adran fasnachol Cymdeithas Adeiladu'r Principality a £1 miliwn wedi'i gyfuno gan y pedair cymdeithas dai yn y bartneriaeth.³⁷ Mae telerau'r cynllun yn gweithredu ar yr un sail â Rhent yn Gyntaf.

Bwriad y Bartneriaeth i ddechrau oedd adeiladu 280 o gartrefi fforddiadwy; cyhoeddwyd £12 miliwn pellach ar gyfer y posibilrwydd o brynu, gan gynyddu'r cyfanswm prynu posibl i hyd at 560 eiddo newydd ar gyfer rhent canolradd, Mae'r bartneriaeth yn prynu'r eiddo ac yna'n ei brydlesu yn ôl i'r cymdeithasau tai dan sylw am gyfnod o ddeng mlynedd.³⁸

NewBuy Cymru

Bwriad Llywodraeth Cymru oedd i'r cynllun tai hwn fod mewn partneriaeth â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi i helpu prynwyr tro cyntaf neu'r rhai a oedd am gymryd y cam cyntaf ar yr ysgol dai.

Byddai'r cynllun wedi gwarantu morgeisi hyd at 95% a byddai ar gael ar dai sy'n werth hyd at £250,000. Y bwriad oedd adeiladu hyd at 3,000 o gartrefi newydd dros dair blynedd, gan arwain at fuddsoddiad o £500 miliwn ym marchnad dai Cymru. Dengys ffigurau diweddar ar gyfer NewBuy yn Lloegr fod cofrestriadau ar gyfer y cynllun wedi cynyddu'n gyflym. Mae mwy na 3,700 o gartrefi wedi'u prynu drwy'r cynllun ers ei gyflwyno.³⁹

Ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Tai ac Adfywio y byddai'r cynllun yn cael ei ohirio. Honnodd Carl Sargent nad oedd gan NewBuy Cymru gefnogaeth adeiladwyr tai mwyach.

³⁷ *Cofnod y Trafodion*, 7 Hydref 2011

³⁸ *Ibid*

³⁹ *NewBuy Guarantee scheme, Quarterly and cumulative data for England up to 30 June 2013*, Medi 2013

Mae adeiladwyr wedi datgan yn glir eu bod yn siomedig gyda'r penderfyniad ac nad ydynt yn deall sut y daethpwyd i'r casgliad hwn. Mae cynlluniau tebyg wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2012 yn Lloegr ac ers mis Medi 2012 yn yr Alban. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr Redrow South Wales: "We want it on the 3rd of June as promised and I'm sure every developer in Wales will still want to support this scheme."⁴⁰

Cymorth i Brynu Cymru

Rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf y gallai model ecwiti a rennir ar sail cynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth y DU gael ei lansio'n ddiweddarach yn 2013.⁴¹ Dywedodd y Gweinidog ar 9 Hydref 2013 ei fod yn gobeithio ei lansio cyn y Nadolig, ond na allai roi dyddiad pendant.

⁴⁰ *BBC Wales*, 19 Ebrill 2013

⁴¹ *Sbarduno Adeiladu Cartrefi yng Nghymru, Datganiad y Gweinidog*, 17 Gorffennaf 2013

Yr Alban

LIFT

Yn yr Alban, mae buddsoddiad sylweddol wedi bod yn y cynllun Ecwiti a Rennir Marchnad Agored. Mae'r cynllun, o'r enw LIFT (Low Cost Initiative for First Time Buyers) yn ei gwneud yn ofynnol i brynwyr gymryd cyfran o 60% o leiaf yn eu heiddo hyd at uchafswm o 90% ac mae Llywodraeth yr Alban yn derbyn cyfrifoldeb am y gweddill drwy gyfran ecwiti y gallant ei adennill pan fydd y prynwr yn gwerthu'r eiddo neu'n gynt.

Bwriedir LIFT ar gyfer aelwydydd ar incwm is yn bennaf. Asesir eu hincwm i bennu a ydynt yn gymwys. Nid oes meini prawf cenedlaethol ar gyfer y prawf incwm gan fod costau tai yn amrywio o un ardal i'r llall.⁴² Fodd bynnag, bydd rhan o'r meini prawf asesu yn gofyn i'r ymgeiswyr gael dyfynbrisiau gan dri gwahanol fenthycwyr morgais ar yr uchafswm y gallant ei fenthyg.

Mae LIFT yn cynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu cartrefi, ond gellir ei ddefnyddio hefyd i helpu eraill. Er enghraifft, gellid helpu person anabl sy'n berchen ar dŷ nad yw'n addas ar gyfer ei anghenion i symud i dŷ mwy addas. Hefyd, rhagwelir y byddai LIFT ar gael mewn lleoliadau detholedig lle mae cynlluniau dymchwel yn effeithio ar berchen-feddiannwyr i'w helpu i brynu tŷ newydd yn yr un ardal.

Cronfa Cynorthwyo Perchnogion Tai

Mae gan Lywodraeth yr Alban gronfa i gynorthwyo i amddiffyn perchnogion tai rhag i'w cartrefi gael eu hadfeddiannu. Os yw cartrefi perchnogion mewn perygl o gael eu hadfeddiannu, gall Llywodraeth yr Alban ymyrryd drwy ddau gynllun, fel rhan o'r Gronfa Cynorthwyo Perchnogion Tai

⁴² LIFT (formerly HomeStake) - a shared equity scheme operating in Scotland, Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi, 18 Chwefror 2013

- y cynllun Mortgage to Rent;
- y cynllun Mortgage to Shared Equity.

O dan y cynllun **Mortgage to Rent**, gall y Llywodraeth drefnu i landlord cymdeithasol brynu'r tŷ ac i'r perchennog barhau i fyw yno fel tenant. Mae'r cynllun **Mortgage to Shared Equity** yn golygu bod Llywodraeth yr Alban yn cymryd cyfran o werth ariannol y tŷ. Mae hyn yn groes i gynlluniau ecwiti a rennir sydd ar waith fel arfer.

Rhent Canolradd ac Ecwiti a Rennir

Mae Llywodraeth yr Alban yn cyfrannu'n bennaf at y ddeiliadaeth perchentyaeth drwy ddarparu rhenti canolradd sy'n golygu eu bod yn cymryd cyfran ecwiti a rennir.

Lloegr

Yn Lloegr, mae cynlluniau amrywiol wedi'u lansio sy'n galluogi i'r rhai sydd am gael troedle ar yr ysgol eiddo ddewis y dull sy'n briodol ar eu cyfer nhw. Mae setliadau penodol hefyd ar gyfer pobl hŷn a gweithwyr y lluoedd arfog.

Cydberchnogaeth

- Prynu rhwng 25% a 75% o'r eiddo
- Mae'n rhaid i'r aelwyd ennill llai na £60,000
- Y gymdeithas dai sy'n berchen ar y gweddill a byddwch yn talu rhent ar y gyfran honno
- Taliadau gwasanaeth posibl am waith ar du allan yr adeilad
- Opsiwn i brynu mwy pan allwch fforddio hynny drwy 'gynyddu cyfran eich perchentyaeth'

New Buy: Lloegr

Nod y cynllun hwn yw helpu darpar berchnogion tai i gael morgais o hyd at 95% ar gyfer tŷ newydd gan adeiladwyr sy'n cymryd rhan.⁴³

Mae'r meini prawf yn cynnwys:

- Mae'n rhaid cael blaendal o 5%
- Gall y cartref fod yn werth hyd at £500,000, ond nid oes cap ar incwm
- Nid yw cartrefi ar gael ar gyfer cydberchnogaeth neu ecwiti a rennir, nac ar gyfer ail gartrefi a phrynu i osod
- Ni ellir cael morgais llog yn unig

Yn eu canlyniadau interim ym mis Rhagfyr, tynnodd Redrow sylw at wahaniaeth sylweddol rhwng marchnadoedd tai Cymru a Lloegr;

“NewBuy is not yet available, and there is no proposal for an equivalent of FirstBuy, we are not seeing the same stimulus to the new-homes market in England.”⁴⁴

Tynnodd Cadeirydd Redrow sylw at elfennau eraill sy'n gwneud y farchnad yn anodd gweithio ynddi yng Nghymru, fel newidiadau arfaethedig i reoliadau adeiladu Cymru.

“As a company with its headquarters in Wales, it is disappointing to note that our South Wales region is the only one of our nine regional businesses not experiencing notable growth.”⁴⁵

Cymorth i Brynu

Lansiwyd Cymorth i Brynu yng nghyllideb y DU ym mis Mawrth 2013. Mae'r cynllun yn estyniad o NewBuy ac mae hefyd yn cynnwys FirstBuy ar gyfer tai newydd sydd wedi'i ymestyn i gartrefi sy'n werth £600,000. Mae elfen gwarant morgais y cynllun yn gymwys

⁴³ Mae NewuBuy Cymru wedi'i seilio ar batrwm y cynllun sydd ar waith yn Lloegr a'r Alban.

⁴⁴ *Interim Results for the six months to 31 December 2012*, Redrow plc, 26 Chwefror 2013

⁴⁵ *Redrow Boss blasts Welsh Government's housing policies*, *Walesonline*, 26 Chwefror 2013

ledled y DU. Dygwyd y cynllun hwn ymlaen o ddechrau 2014 i 8 Hydref 2013, ond ar gyfer ceisiadau yn unig. Telir morgeisi o 1 Ionawr 2014 ymlaen.

"The Help to Buy mortgage guarantee scheme – while still embryonic as yet – holds significant firepower, and has the potential to increase activity from 2014."⁴⁶

Bob Parnell – Prif economegydd CML

Funding for Lending

Cyflwynodd Llywodraeth y DU *Funding for Lending* yn ystod haf 2012 gyda buddsoddiad cychwynnol o £80 miliwn i helpu banciau i gynyddu eu benthyciadau i fusnesau ac ar gyfer morgeisi. Er i'r cynllun arwain at gynnydd cymedrol mewn benthyciadau busnes i ddechrau, cynyddol benthyciadau morgeisi'n sylweddol.

Nododd Redrow, adeiladwyr tai mwyaf y DU, bod y cynllun yn:

"helping to reduce the cost of mortgages for both the new homes and second hand markets."⁴⁷

"Funding for Lending doesn't have a border so that has been extremely helpful for the new homes market and the second-hand market because it is available to reduce costs for first time buyers, that is one positive thing that Wales has benefited from because there is no border."⁴⁸

Steve Morgan – Redrow

"Since the launch of the Government's Funding for Lending scheme we have seen mortgage rates hit an all-time low, really

⁴⁶ *Gross mortgage lending up 9% in March*, Council of Mortgage Lenders, 19 Ebrill 2013

⁴⁷ Redrow plc, *Interim Results for the six months to 31 December 2012*, 26 Chwefror 2013

⁴⁸ Op cit, *Walesonline*, 26 Chwefror 2013

*making a difference to affordability. These proposals [Help to Buy] will, just as importantly, address accessibility, and provide a genuine solution to the challenge of raising a deposit. Working together these two schemes will get more people on and moving up the property ladder.*⁴⁹

Stephen Noakes – Cyfarwyddwr Morgeisi Grŵp Bancio Lloyds

Gwerthiannau Hawl i Brynu yn Lloegr

Roedd Strategaeth Tai Lloegr, a lansiwyd yn 2011, yn tynnu sylw at y ffordd yr arweiniodd y gostyngiad mewn disgowntiau a roddwyd i denantiaid mewn tai cymdeithasol at fawr ddim gwerthiannau eiddo hawl i brynu ar ôl 2008. Mae Llywodraeth bresennol y DU wedi adfywio'r system, gan gynnig uchafswm disgownt uwch i denantiaid.⁵⁰

Mae'r disgownt yn cynyddu gyda hyd y denantiaeth. Mae'n cael ei bennu ar **35%** o werth yr eiddo ynghyd ag **1%** y flwyddyn os yw'r tenant wedi byw yn yr eiddo am fwy na phum mlynedd, gydag uchafswm disgownt o **60%** ar gyfer tai a **70%** ar gyfer fflatiau. Mae'r uchafswm disgownt wedi'i gapio ar **£75,000** hefyd.

Polisi Llywodraeth y DU yw bod cartref arall yn cael ei adeiladu neu ei brynu am bob un a werthir.

- Yn 2012-13, amcangyfrifwyd bod awdurdodau lleol wedi gwerthu 5,944 annedd o dan y cynllun Hawl i Brynu. Gwnaed £367 miliwn o'r gwerthiannau hyn.
- Yn 2012-13, dechreuwyd adeiladu neu prynwyd **844 annedd** gan yr awdurdodau lleol hyn.⁵¹

⁴⁹ *Help for borrowers with small deposits will only work if Government gets the details right say mortgage banks*, Mindful Money, 20 Mawrth 2013

⁵⁰ *Laying the Foundations, A Housing Strategy for England*, Tachwedd 2011, tud.26

⁵¹ *Right to Buy Sales in England: 2013-14 Quarter 1 (Apr-Jun)*, 22 Awst 2013

First Steps: Perchentyaeth yn Llundain

Yn Llundain, mae First Steps, sef model ecwiti a rennir a sefydlwyd i gydnabod nodweddion unigryw marchnad Llundain, yn ystyried cyflogau'r brifddinas ac yn cydnabod na fyddai llawer yn gallu prynu heb gymorth. Mae yna First Steps Intermediate Rent hefyd, sy'n helpu'r rhai yn y sector tai cymdeithasol i berthentyaeth os ydynt yn credu mai dyna'r opsiwn priodol iddyn nhw.

O dan y cynllun a lansiwyd yn 2008 gan Boris Johnson, Maer presennol Llundain, mae unrhyw brynwr tro cyntaf sydd ag incwm yr aelwyd dan £66,000 y flwyddyn yn gymwys i brynu neu rentu cartref un neu ddwy ystafell wely, neu dan £80,000 y flwyddyn i brynu neu rentu cartref teulu tair ystafell wely neu fwy ar unwaith.

- Bodoli yn Llundain ar gyfer pobl sydd am brynu yn Llundain
- Rhai grwpiau'n cael blaenoriaeth: Tenantiaid cymdeithasau tai a'r Cyngor, Gweithwyr y Lluoedd Arfog a phrynwyr tro cyntaf
- Nid oes rhaid i chi fod yn brynwr tro cyntaf, ond mae'n rhaid i chi fod wedi gwerthu'ch cartref presennol cyn cael manteisio ar y cynllun hwn
- Caniatáu i chi brynu neu rentu
- Mae'r opsiwn i brynu'n cael ei gynnig yn awr drwy Cymorth i Brynu
- Gelwir yr opsiwn rhentu yn Rent to Save ac mae'n opsiwn rhentu canolradd lle mae tenant yn talu llai na rhent y farchnad er mwyn cynilo ar gyfer blaendal. Yna, gall y tenant fynd ymlaen i brynu drwy delerau Ecwiti a Rennir neu fenthyciad ecwiti.

Ecwiti a Rennir a Gwarant Morgais

Er gwaethaf y sefyllfa economaidd sydd ohoni, mae cyfran uchel o bobl ifanc ac oedolion am fod yn berchnogion tai o hyd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y bydd nifer o wahanol gynlluniau'n codi diwydiant adeiladu tai Cymru o'r marweidd-dra hwn yn y farchnad, a rhoi'r gallu i ddarpar berchnogion tai ymuno â'r farchnad yn y ffordd sydd fwyaf addas ar eu cyfer.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad *Papur Gwyn - Cartrefi i Gymru* yn cydnabod bod llawer o waith yn cael ei wneud yn Lloegr i ddatblygu cynllun 'Newbuy' ac felly bod mantais i fabwysiadu cynllun mor debyg i'r cynllun hwnnw â phosibl, gan sicrhau bod benthycwyr ac adeiladwyr tai Cymru yn gallu cymryd rhan⁵²

Mae cynlluniau tebyg wedi bod at waith ers mis Mawrth 2012 yn Lloegr ac ers mis Medi 2012 yn yr Alban. Roedd y Ceidwadwyr Cymreig yn awyddus iawn i weld cynllun gwarant morgais ar waith mewn ffordd amserol a phriodol.

Felly, roeddem yn cefnogi cynllun NewBuy Cymru Llywodraeth Cymru, a oedd i fod i ddod i rym ar 3 Mehefin 2013, a oedd yn rhoi addewid i warantu morgaesi hyd at 95%, a fyddai wedi darparu 3,000 o gartrefi newydd dros dair blynedd. Fodd bynnag, ymddengys yn awr na fydd y cynllun hwn yn mynd rhagddo bellach yn ôl y bwriad, sy'n siomedig dros ben.

O ddatganiad y Gweinidog ar 17 Gorffennaf 2013, ymddengys y bydd Llywodraeth Cymru yn lansio cynllun ecwiti a rennir bellach sy'n seiliedig ar gynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth y DU, sef Cymorth i Brynu Cymru.

Gall cynlluniau Ecwiti a Rennir fod yn fwy atyniadol i fenthycwyr. Mae'n rhaid benthycu arian i warantu canran y benthyciad sy'n cael ei brynu gan y darpar berchennog tŷ. Mae hyn hefyd yn addas i'r rhai ar gymarebau pris-i-incwm arferol gan fod hyn yn gwneud perchentyaeth yn fwy fforddiadwy i lawer, gan olygu bod eu blaendal yn is, a hyd yn oed gyda benthyciad ecwiti ar ben hynny, gall eu treuliau fod yn is weithiau nag ar fodel cydberchnogaeth, lle

⁵² *Cartrefi i Gymru, Ymgynghoriad - Crynodeb o Ymatebion*, Hydref 2012, tud.10

byddai'r perchennog tŷ yn talu rhent a thaliadau morgais. Byddem o blaid polisi tai a fyddai'n rhoi'r cyfle i ddarpar berchnogion tai ddewis yr opsiwn sydd fwyaf addas ar eu cyfer.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cymorth i Brynu Cymru yn sgil cynllun Llywodraeth y DU, ond yn credu y gallai mwy fod wedi cael ei wneud yn gynt gyda'r cynllun gwarant morgais i gynorthwyo darpar berchnogion tai.

Cynnig 1 y Ceidwadwyr Cymreig – Adeiladu tai

Mae adeiladu tai wrth wraidd economi iach ac mae'n hollbwysig ar gyfer diwallu anghenion cymdeithas. Felly, credwn y dylai fod yn ganolog i unrhyw strategaeth dai. Gall gofynion tai fforddiadwy, a bennir gan awdurdodau lleol, olygu bod adeiladwyr yn ystyried nad yw datblygiadau'n fasnachol hyfyw, ac felly ni fyddant yn adeiladu. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod hyn yn wrthgynhyrchol.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o blaid cynlluniau fforddiadwy sy'n galluogi benthydwyr i ymgysylltu â darpar brynwyr ac yn credu y bydd nifer o wahanol gynlluniau'n codi diwydiant adeiladu tai Cymru o'r marweidd-dra hwn yn y farchnad, a rhoi'r gallu i ddarpar berchnogion tai a thenantiaid ymuno â'r farchnad yn y ffordd sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Fodd bynnag, os na eir i'r afael ar unwaith yn effeithiol â'r fiwrocratiaeth sy'n achosi i gwmnïau adeiladu ystyried adeiladu y tu allan i Gymru, ni fydd y galw'n cael ei fodloni a bydd hyn yn creu swigen.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn frwd o blaid bywiogi'r sector adeiladu tai yng Nghymru. Os na ellir adeiladu datblygiadau tai oherwydd targedau tai fforddiadwy uchel, yna ni fydd unrhyw dai newydd yn cael eu hadeiladu. Dylai awdurdodau lleol ystyried Aseidiadau Hyfywedd a gynhelir gan adeiladwyr er mwyn sicrhau bod cymaint o gartrefi fforddiadwy'n cael eu darparu â phosibl drwy asesu'r hyn sy'n ymarferol mewn gwirionedd yn hytrach na tharged pellgyrhaeddol a allai rwystro darpariaeth. Drwy seilio darpariaeth tai fforddiadwy mewn datblygiadau tai newydd ar Aseidiadau Hyfywedd, mae'n llawer mwy tebygol y bydd mwy o dai'n cael eu hadeiladu a mwy o dai fforddiadwy yn sgil hynny.

Mae'r Gweinidog Tai wedi sylweddoli i raddau bod rheoliadau adeiladu'n rhwystro adeiladu, ac mae wedi gohirio rhai o ymrwymadau Llywodraeth Cymru er mwyn sbarduno gwaith adeiladu.⁵³ Rydym yn croesawu'r tasglu bach a sefydlwyd gan y

⁵³ *Sbarduno Adeiladu Cartrefi yng Nghymru*, Datganiad y Gweinidog, 17 Gorffennag 2013

Gweinidog ym mis Gorffennaf 2013 a fydd yn adrodd i gyfarwyddwr tai awdurdod lleol maes o law.⁵⁴ Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld mwy o ddealltwriaeth o'r sector, ac addewid y bydd polisi yn y dyfodol yn cael ei lunio gyda darparwyr tai er mwyn diwallu'r angen am dai.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o blaid dull o ymdrin â thai sy'n ystyried y farchnad yn ei chyfanrwydd a fyddai'n cael ei weithredu o dan ein Comisiwn Tai Cymru arfaethedig. Corff parhaol fyddai hwn a fyddai'n sicrhau y gellid mynd i'r afael yn brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw bryderon sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu, benthycwyr, y sector tai cymdeithasol a landlordiaid preifat. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw rheoliadau'n feichus. Rydym yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth Cymru, ond cam bach ymlaen yn unig yw hwn. Credwn fod angen sefydlu'r Comisiwn os ydym am fynd i'r afael â'r argyfwng cyfenwad tai mewn ffordd ymarferol y gellir ei chyflawni.

Yn olaf, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld dulliau mwy cydgysylltiedig o ymdrin â sgiliau. Mae gweithwyr medrus newydd yn hollbwysig i adeiladu tai, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod y doniau hyn yn cael eu meithrin. Mae'n rhaid i ni annog cysylltiadau rhwng cymunedau lleol, ysgolion, colegau a chwmnïau adeiladu er mwyn i bobl ifanc fedrus newydd ymuno â sector adeiladu wedi'i fywiogi o'r newydd.

⁵⁴ *Ibid*

Cynnig 2 y Ceidwadwyr Cymreig – Hawl i Brynu

Datgelodd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi fod 84% o oedolion yng Nghymru'n gobeithio bod yn berchnogion tai ymhen deng mlynedd⁵⁵. Datgelodd arolwg cynharach o Brydain gyfan fod 36% o'r rhai mewn tai cymdeithasol am fod yn berchnogion tai ymhen dwy flynedd, gan godi i 43% ymhen deng mlynedd.⁵⁶ Byddai mwy na hanner y rhai dan 35 oed sy'n rhentu ar hyn o bryd, sef 54%, am fod yn berchnogion tai ond dim ond 33% sy'n disgwyl i hynny ddigwydd.⁵⁷

Dylai'r tenantiaid hyn gael y cyfle i brynu'r tŷ y maent wedi treulio blynyddoedd lawer yn ei droi yn gartref, gyda disgownt ar bris y farchnad sy'n ei wneud yn fforddiadwy. Yna, gellid **neilltuo'r** arian a dderbynnir drwy Hawl i Brynu i adeiladu tai cymdeithasol newydd.⁵⁸

Mae Hawl i Brynu wedi'i ystyried fel gweddillion cyfundrefn o'r 80au, ond mae wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt - mae'r cynllun wedi'i adfywio yn Lloegr ac mae'r arian o werthiannau wedi'i wario ar adeiladu neu brynu eiddo newydd i'w osod fel eiddo cymdeithasol.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod gwerth y polisi hwn, ond hefyd ei heriau. Credwn y dylai pobl gael y cyfle i brynu eu cartrefi os ydynt am wneud hynny, ond rydym hefyd yn deall bod angen sbarduno'r sector adeiladu ac adeiladu mwy o dai oherwydd y diffyg adeiladu ers mwy na degawd yng Nghymru.

Drwy bartneriaeth â busnesau adeiladu Cymru, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a Llywodraeth Cymru, byddem yn sicrhau yn y lle cyntaf bod cyflenwad digonol o dai ar gael. Elfen ganolog o'n gweledigaeth yw cynnal y cyflenwad tai a

⁵⁵ *Welsh borrowers have higher aspirations for home-ownership than Great Britain overall*, 28 Mai 2013

⁵⁶ *Strong desire for home-ownership remains, but can it be fulfilled?*, Cyngor Benthycwyr Morgeisi, 13 Mehefin 2012

⁵⁷ *Ibid*

⁵⁸ O dan y Cynllun Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ar hyn o bryd, mae arian yn cael ei anfon i Drysorlys y DU, fodd bynnag mae trafodaethau ar waith i roi diwedd ar hyn.

sicrhau nad yw'n cael ei ddisbyddu gydag amser, gyda'r arian o werthiannau'n cael ei ddyrannu yn ôl i adeiladu tai.

Rydym yn ymwybodol hefyd o'r feirniadaeth bod tai yn cael eu prynu ac yn aml eu bod ar y farchnad i'w hailwerthu o fewn ychydig flynyddoedd; sy'n golygu bod y perchennog gwreiddiol yn gwneud elw sylweddol ac yn gadael eu cymuned, neu fod y tŷ yn cael ei gynnig ar sail prynu-i-osod. Nid hyn yw bwriad polisi Hawl i Brynu y Ceidwadwyr Cymreig; credwn y dylai'r cynllun fod ar gael i'r rhai sydd am gael sefydlogrwydd a pherchnogaeth. Dyna pam y byddem yn awgrymu polisi lle byddai cartref a fyddai'n cael ei werthu o fewn pum mlynedd i'w brynu yn golygu y byddai'n rhaid i'r perchennog ad-dalu cyfran o'r disgownt a dderbyniwyd ganddynt wrth brynu yn ôl graddfa symudol a fyddai'n adlewyrchu nifer y blynyddoedd y maent wedi bod yn berchen ar yr eiddo.

Cynnig 3 y Ceidwadwyr Cymreig – Cartrefi Gwag

Er i Lywodraeth Cymru lansio'r cynllun Troi Tai'n Gartrefi i ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto; mae'r targedau presennol yn rhy isel o hyd i sicrhau ateb hirdymor. Y nod yw defnyddio 5,000 eiddo unwaith eto erbyn diwedd 2016, er yr amcangyfrifir bod 33,500 o gartrefi gwag ledled Cymru.⁵⁹

Mae cartrefi gwag yn difwyno cymuned, gyda thai yn troi'n annrhigiadwy ac yn dadfeilio yn gyflym iawn. Mae Asiantaeth Cartrefi Gwag Cenedlaethol Lloegr yn tynnu sylw yn ei strategaeth at rai o'r problemau, yn enwedig y rhai sy'n destun pryder i gymunedau: gall cartrefi sy'n mynd yn wastraff godi gwrychyn rhai pobl pan fo cymaint o bobl heb do addas uwch eu pennau; neu wrthwynebu adeiladu tai newydd y mae mawr eu hangen gan nad yw cartrefi presennol yn cael eu defnyddio'n briodol.⁶⁰

Dosberthir tai gwag fel y rhai sydd wedi bod yn wag ers mwy na chwe mis, ac fe'u hystyrir yn anheddau gwag hirdymor.⁶¹ Ym mis Ionawr 2013, roedd 6,265 o gartrefi gwag yng Nghaerdydd yn unig.⁶² Ledled Cymru, mae 32,403 o gartrefi wedi bod yn wag am fwy na blwyddyn.⁶³ Dywedodd Huw Lewis, y cyn Weinidog Tai ym mis Ionawr 2013 bod 2,000 o gartrefi bellach yn cael eu defnyddio unwaith eto ⁶⁴; ond gan nad yw'r niferoedd yn cael eu coladu'n ganolog neu eu cyhoeddi'n rheolaidd, ni ellir gweld faint o dai newydd sy'n dod yn wag.⁶⁵

Byddem o blaid model wedi'i rannu tebyg i raglen Llywodraeth y DU lle mae'r arian sy'n cael ei wario ar ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto yn cael ei roi i'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau, grwpiau cymunedol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ar 1

⁵⁹ *Surveyors warning over derelict homes rise in Wales*, BBC Wales, 8 Ionawr 2013

⁶⁰ *National Empty Homes Action Plan*, Hydref 2009

⁶¹ *Welsh Empty Property Initiative "House into Homes"*, Lavender a Wilson, Mehefin 2012

⁶² *Cais Rhyddid Gwybodaeth 03686, Cyngor Caerdydd* Awst 2013

⁶³ *Cais Rhyddid Gwybodaeth gan bob un o'r 22 awdurdod lleol*, Mehefin 2013

⁶⁴ *Cofnod y Trafodion*, 8 Ionawr 2013

⁶⁵ *Dwyeddod y Gweinidog dros Dai ac Adfywio 5 Tachwedd 2013 y byddai 900 o gartrefi fod ar erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2013/14. (Cofnod y Trafodion)*

Ebrill 2013, diddymodd Llywodraeth y DU y 'gostyngiadau treth arbennig ar gyfer cartrefi gwag ac ail gartrefi' a oedd wedi bod yn wag am ddwy flynedd neu fwy, Credwn y dylai pŵer i godi cyfraddau Treth Gyngor uchel gael ei gyfyngu i eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na dwy flynedd, yn hytrach na blwyddyn, sef y model a gynigir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau sensitifrwydd i amgylchiadau unigol - fel perchnogion mewn profedigaeth neu berchnogion â phroblemau cymhleth y gellid, gyda chymorth, eu datrys.

Camau gweithredu'r DU ar gartrefi gwag

Lloegr

Roedd strategaeth *Laying the Foundations: A Housing Strategy for England*, Llywodraeth y DU yn cynnwys manylion cyllid cyfalaf o £100 miliwn o Raglen Cartrefi Fforddiadwy 2011-15 a oedd wedi'i neilltuo i fynd i'r afael ag eiddo gwag hirdymor na fyddai'n cael ei ddefnyddio unwaith eto heb ymyrraeth ariannol ychwanegol.

Roedd £70 miliwn o'r cyllid hwn wedi'i neilltuo i'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau ddarparu rhaglen o ddefnyddio eiddo gwag unwaith eto fel tai fforddiadwy. Mae'r £30 miliwn arall ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol drwy raglen gyllid ar wahân. O 25 Chwefror 2013 ymlaen, mae cyfanswm yr arian wedi'i gynyddu i £160 miliwn, gyda'r targed o ddefnyddio 11,200 o gartrefi sydd wedi bod yn broblem unwaith eto.⁶⁶

Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd Don Foster, y Gweinidog Cymunedau £91 miliwn pellach i fynd i'r afael â'r mater, gyda £61 miliwn ar gyfer Cylch Dau rhaglen gyllido cartrefi gwag a £30 miliwn i glystyrau a fydd yn mynd i'r afael â phroblemau aciwt mewn dinasoedd penodol.⁶⁷

Yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban wedi rhoi addewid o hyd at £4 miliwn ar gyfer Cronfa Benthyciadau Cartrefi Gwag, sef cronfa deng mlynedd sydd â'r nod o ddefnyddio 478 o dai unwaith eto fel tai fforddiadwy. Mae'r prosiectau wedi derbyn eu cyllid ac mae disgwyl i'r rhai sy'n

⁶⁶ *Increasing the number of available homes*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 25 Chwefror 2013, Gov.Uk, fel ar 30 Ebrill 2013

⁶⁷ *£91 million cash to tackle over 6,000 empty and derelict homes*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 20 Mehefin 2013

benthyg arian ar gyfer adnewyddu eu tai dalu o leiaf 60% o'r cyllid yn ôl erbyn 2019/20 a'r cyfan erbyn 2023/24.⁶⁸

Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun o'r enw Troi Tai'n Gartrefi sydd â'r nod o ddefnyddio 5,000 o gartrefi gwag unwaith eto erbyn yr etholiad nesaf yn 2016. Yn ei ddatganiad i'r siambr ar 8 Ionawr, dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Tai ar y pryd, bod 2,000 eiddo yn cael eu defnyddio unwaith eto ers lansio'r cynllun ym mis Chwefror 2012.

Roedd y Gweinidog yn gwadu'r stori gan BBC Wales ar 8 Ionawr 2013 a honnodd fod 33,789 o gartrefi gwag yng Nghymru ym mis Mawrth 2012, ac mai'r ffigur y llynedd oedd 23,000.⁶⁹ Dywedodd y Gweinidog bod pob awdurdod lleol bron iawn yn manteisio ar eu cynllun Troi Tai'n Gartrefi; sef benthyciad di-log gan Lywodraeth Cymru a weinyddir gan awdurdodau lleol i adnewyddu cartrefi gwag a'u defnyddio unwaith eto fel tai cymdeithasol. Ni all y perchennog ddefnyddio'r benthyciad i adnewyddu'r cartref at ei ddefnydd ei hun.

⁶⁸ *Gwefan Llywodraeth yr Alban, Empty Loans Fund*, fel ar 14 Awst 2013

⁶⁹ *Cofnod y Trafodion*, 8 Ionawr 2013

Astudiaeth Achos: Cartrefi Gwag Sir Ddinbych

Disgrifiodd Swyddog Cartrefi Gwag Cyngor Sir Ddinbych sut aethant i'r afael â'r cartrefi a oedd ganddynt yn yr ardal.

“Cynigiwyd grantiau cartrefi gwag am gyfnod byr i helpu perchnogion i sicrhau y gellid defnyddio eu heiddo unwaith eto.”⁷⁰ Rhoddwyd grantiau o hyd at £10,000 neu 50% o'r gwaith a oedd angen ei wneud. Roedd y Cyngor yn cynnig rheoli'r gwaith ar ran y perchnogion a oedd yn cynnwys cynnal arolygon, gweithio ar restr o'r gwaith, paratoi tendrau i gontractwyr a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, cwblhau gwiriadau gwerth am arian ac yna goruchwyllo'r gwaith tan iddo gael ei gwblhau.

Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, gofynnodd y cyngor i Dai Sir Ddinbych am unrhyw enwebiadau a gafwyd gan deuluoedd a oedd am gael eiddo o'r maint hwnnw yn yr ardal dan sylw. Felly, roedd y cartrefi'n cael eu defnyddio unwaith eto fel tai fforddiadwy ar gyfer y rhai a oedd angen tai.

Byddai cymdeithas dai (Tai Gogledd Cymru gan amlaf) yn rheoli'r eiddo ar ran y landlord felly, am gyfnod yr amodau grant, byddai'r tŷ yn dod yn rhan o'u portffolio i bob diben a byddai Swyddog Tai yn cael ei ddyrannu i'r tenantiaid er mwyn rheoli ymddygiad a sicrhau bod y rhent yn cael ei dalu i'r landlord.

Sbardunwyd yr holl broses hon gan lythyr, holiadur a llyfryn gwybodaeth a anfonwyd i berchennog pob cartref gwag a nodwyd ar ddechrau pob blwyddyn ariannol gan dîm y Dreth Gyngor yn gofyn pa berchnogion tai oedd â diddordeb mewn sicrhau bod eu heiddo yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

Roedd gan y Cyngor gronfa ddata gynhwysfawr hefyd lle'r oeddynt yn gallu rhoi 'sgôr' i gartrefi gwag ar sail matrices blaenoriaeth er mwyn deall yr eiddo a oedd yn achosi'r problemau mwyaf dyrys yn y sir, ymhle yr oeddynt ac a oedd mwy nag un asiantaeth yn ymwneud â'r mater.

Mae gan bob cartref ei hanes ei hun - mae dull Sir Ddinbych yn canfod y cartrefi sy'n wag a'r rheswm am hynny. Maent yn sensitif i amgylchiadau unigol - fel perchnogion mewn profedigaeth neu berchnogion gyda phroblemau cymhleth y gellid, gyda chymorth, eu datrys.

⁷⁰ *Swyddog Cartrefi Gwag Sir Ddinbych*, e-bost dyddiedig mis Mawrth 2013

Casgliad

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn benderfynol o roi lle canolog i dai mewn gwaith adfywio cymunedol a sicrhau ei fod ar frig agenda Llywodraeth Cymru. Fel y nododd yr Athro Steve Wilcox yn Adolygiad Tai 2012 y DU; hyd yn oed cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gael pwerau deddfu yn 2011 roedd tai yn isel iawn ar ei restr o flaenoriaethau.

Fodd bynnag, mae llawer o adroddiadau pwyllgor wedi bod ar y pwnc, gan gynnwys *Gwneud y mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat a Cwrdd â'r Her Tai* cyn dau Bapur Gwyn diweddaraf y Llywodraeth ar dai. Efallai bod mwy o adroddiadau ar y pwnc nac ar unrhyw faes polisi arall. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu ei bod yn amser i weithredu ac nad yw'r camau a'r targedau yn ddigon uchelgeisiol. Mae'n rhaid i ni wneud mwy, nid oherwydd nodau ideolegol, ond oherwydd bod tai yn gwbl sylfaenol i iechyd a lles.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o blaid targedau uchelgeisiol, ond hyblyg a realistig, a dod â'r farchnad gyfan at ei gilydd i'w cyflawni.

Rydym yn credu ac yn cydnabod hefyd bod yn rhaid i bolisiâu fod yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cyflenwad tai yn parhau i ddiwallu anghenion amrywiol poblogaeth sy'n newid; drwy hyrwyddo marchnad dai sy'n cynorthwyo pobl gydol eu bywydau, law yn llaw ag adeiladu tai er mwyn sicrhau nad yw'r farchnad yn amrywio'n beryglus, a benthycu cyfrifol.

Drwy hyrwyddo cynlluniau gwarant morgaeisi ac ecwiti a rennir a fydd yn cyd-fynd â pholisiâu cyfredol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, byddem yn cynyddu nifer y cartrefi sy'n cael eu dechrau a'u cwblhau. Rydym o blaid creu sylfaen i bobl ifanc a theuluoedd uchelgeisiol i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain.

- Drwy sicrhau bod asesiadau hyfywedd yn cael eu hystyried wrth **adeiladu tai fforddiadwy** ar bob datblygiad, gallwn gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, heb gyfaddawdu datblygiadau preifat.

- Byddwn yn diwygio'r cynllun **Hawl i Brynu** a sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau, drwy archwilio'r posibilrwydd o neilltuo'r arian o werthiannau ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy newydd. Yn y cyfamser, byddwn yn cynyddu'r stoc tai yn y sectorau fforddiadwy a phreifat er mwyn sicrhau y gall y polisi fod yn effeithiol.
- Drwy ymestyn y fenter **cartrefi gwag**, byddwn yn ceisio sicrhau y defnyddir y mwyafrif o gartrefi gwag unwaith eto. Rydym yn credu y dylai'r targed fod yn llawer uwch na tharged presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am adeiladu cartrefi ac adfywio cymunedau; cefnogi busnesau a gweithredu i ostwng y nifer ar restrau aros cymdeithasol, sef 91,000 yn ôl yr amcangyfrif.

Credwn y dylid bod wedi gweithredu ar dai cyn hyn, bod angen gwneud hynny nawr a bydd angen gwneud hynny yn y dyfodol. Ni allwn laesu dwylo a disgwyl am ddeddfwriaeth tai a chymryd yn ganiataol y bydd yn cynnig yr atebion i ddatrys yr argyfwng cyflenwad tai. Mae rhethreg a thargedau tymor byr angen cynllun adfer ym maes tai ar Gymru, a hynny ar unwaith gyda gweledigaeth ac uchelgais, nid rhethreg a thargedau tymor byr cyfyngedig.

Atodiad 1 – Nifer y cartrefi a adeiladwyd yng Nghymru 1987 – 2013

	Anheddau newydd menter breifat	Anheddau newydd landlordiaid cymdeithaso cofrestredig	Anheddau newydd awdurdodau lleol	Cyfanswm anheddau newydd
1987-88 Blynyddol	8524	547	864	9935
1988-89 Blynyddol	10133	988	733	11854
1989-90 Blynyddol	8596	1628	824	11048
1990-91 Blynyddol	8087	1716	467	10270
1991-92 Blynyddol	7172	2470	334	9976
1992-93 Blynyddol	6690	2591	119	9400
1993-94 Blynyddol	6654	3005	212	9871
1994-95 Blynyddol	6303	2572	198	9073
1995-96 Blynyddol	6876	2126	164	9166
1996-97 Blynyddol	7517	2548	23	10088
1997-98 Blynyddol	6492	1938	2	8432
1998-99 Blynyddol	6439	1269	29	7737
1999-00 Blynyddol	7860	846	0	8706
2000-01 Blynyddol	7386	900	47	8333
2001-02 Blynyddol	7494	711	68	8273
2002-03 Blynyddol	7522	782	6	8310
2003-04 Blynyddol	7863	417	16	8296
2004-05 Blynyddol	7986	475	31	8492
2005-06 Blynyddol	7883	347	19	8249
2006-07 Blynyddol	8988	346	0	9334
2007-08 Blynyddol	8316	343	5	8664
2008-09 Blynyddol	6429	692	0	7121
2009-10 Blynyddol	5291	880	3	6174
2010-11 Blynyddol	4513	992	0	5505
2011-12 Blynyddol	4746	829	0	5575
2012-13 Blynyddol	4720	744	0	5464

Ffynhonnell: StatsCymru, *New dwellings completed by period and tenure*, fel ar 16 Hydref 2013.

Atodiad 2 – Nifer y gwerthiannau Hawl i Brynu

	Cyfanswm gwerthiannau		Cyfanswm gwerthiannau
	Cyfanswm Awdurdodau Lleol	Cyfanswm Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	
1988-89 Blynyddol	10946	399	11345
1989-90 Blynyddol	11729	205	11934
1990-91 Blynyddol	5005	419	5424
1991-92 Blynyddol	3308	355	3663
1992-93 Blynyddol	2714	90	2804
1993-94 Blynyddol	2913	198	3111
1994-95 Blynyddol	3035	418	3453
1995-96 Blynyddol	2316	611	2927
1996-97 Blynyddol	2130	818	2948
1997-98 Blynyddol	2836	737	3573
1998-99 Blynyddol	2533	243	2776
1999-00 Blynyddol	3590	182	3772
2000-01 Blynyddol	3539	225	3764
2001-02 Blynyddol	3462	256	3718
2002-03 Blynyddol	4999	273	5272
2003-04 Blynyddol	6865	322	7187
2004-05 Blynyddol	3999	415	4414
2005-06 Blynyddol	1794	241	2035
2006-07 Blynyddol	1288	412	1700
2007-08 Blynyddol	835	403	1238
2008-09 Blynyddol	158	239	397
2009-10 Blynyddol	140	209	349
2010-11 Blynyddol	115	260	375
2011-12 Blynyddol	84	328	412
2012-13 Blynyddol	104	322	426

** Yn 2007, cafodd Llywodraeth Cymru y pŵer i ohirio'r polisi mewn ardaloedd lle'r oedd anghenion tai cymdeithasol uchel.*

Ffynhonnell: StatsCymru, *Total social housing sales by period and provider type*, fel ar 16 Hydref 2013

Atodiad 3 – Nifer y Cartrefi Gwag

Awdurdod lleol	Cyfanswm eiddo gwag
Abertawe	1691
Blaenau Gwent	928
Bro Morgannwg	647
Caerdydd	6325
Caerffili	1410
Casnewydd	1551
Castell-nedd Port Talbot	1248
Ceredigion	750
Conwy	1116
Gwynedd	1226
Merthyr	658
Pen-y-bont ar Ogwr	1045
Powys	2014
Rhondda Cynon Taf	3248
Sir Benfro	1239
Sir Ddinbych	1566
Sir Fynwy	559
Sir Gaerfyrddin	2319
Sir y Fflint	1220
Torfaen	390
Wrecsam	228
Ynys Môn	1025
Cyfanswm yr eiddo gwag (Cymru)	35145

Nifer y cartrefi gwag ym mis Mehefin 2013.

Noder nad yw awdurdodau lleol Ynys Môn a Phowys yn cadw data cartrefi gwag ar gyfer y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn eu hardal.

Ffynhonnell: Cafwyd y ffigurau o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i bob awdurdod lleol yng Nghymru, ym mis Mehefin a Gorffennaf 2013.

Atodiad 4 – Tai cymdeithasol a rhentu

Fel y dangosir yn atodiad 3, mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y cartrefi a adeiladwyd yng Nghymru ers datganoli ym 1999. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod bod yn rhaid i'r ateb marchnad gyfan gynnwys y pedair thema ganlynol:

Hawl i rentu

Mae hyn yn cynnwys:

- rhenti cymdeithasol
- sector rhentu preifat yn gweithio gydag asiantaethau gosod cymdeithasol
- rhentu canolradd
- sector rhentu preifat marchnad agored
- gweithio gyda'r farchnad gyfan i weithredu yn erbyn landlordiaid troseddol tra'n croesawu'r sector rhentu preifat fel darparwr tai cymdeithasol allweddol

Sector Rhentu Preifat

Dywedodd Douglas Haig, Cyfarwyddwr Cymru'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wrth y Diwrnod Agored i Landlordiaid cyntaf a gynhaliwyd yng Nghaerdydd bod dros gan darn o ddeddfwriaeth statudol gyda dros 400 o reoliadau yn rheoli eiddo; nid oes angen mwy arnom, dim ond gweithredu'r hyn sy'n gweithio ac os oes modd ei symleiddio.⁷¹ Dywedodd fod 84% o denantiaid yn y sector rhentu preifat yn dweud eu bod yn fodlon gyda'u llety o gymharu â 80% yn y sector rhentu cymdeithasol.⁷² Pwysleisiodd hefyd mai 9% yn unig o denantiaethau sy'n cael eu terfynu gan y landlord⁷³ ac mae data'r Gymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol wedi dangos hefyd fod

⁷¹ Douglas Haig, *Diwrnod Agored Landlordiaid Caerdydd*, 20 Mai 2013

⁷² *Ibid*, rhoddwyd ateb hefyd gan Mark Prisk, Hansard, 23 Ionawr 2013

⁷³ *Attitudes and Satisfaction*, 2011-12, <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/attitudes-and-satisfaction> fel ar 30 Medi 2013

NODER: er bod y ddwy ffynhonnell hon yn canolbwyntio ar Loegr, mae Douglas Haig wedi dweud nad oes unrhyw reswm i awgrymu fod y sefyllfa'n wahanol yng Nghymru.

60% o denantiaid sector rhentu preifat wedi byw yn eu cartrefi am fwy na phedair blynedd.⁷⁴

Ym mis Chwefror 2011, argymhellodd adroddiad *Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat* y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant bod Llywodraeth Cymru'n mynd ati i hyrwyddo delwedd gyhoeddus gadarnhaol o'r sector rhentu preifat fel deiliadaeth o ddewis yng Nghymru.⁷⁵ Argymhellodd hefyd bod y Llywodraeth yn llunio strategaeth benodol ar fanteisio i'r eithaf ar y sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar eu Papur Gwyn Tai a oedd yn cynnig cynllun cofrestru ac achredu landlordiaid gorfodol ar gyfer landlordiaid preifat, a chyhoeddodd Bapur Gwyn pellach ar fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer rhentu cartref yng Nghymru sy'n cynnig 'contract diogel' wedi'i fodelu ar y denantiaeth ddiogel gyfredol a roddir gan awdurdodau lleol a 'contract safonol' wedi'i fodelu ar y 'denantiaeth fyrddaliadol sicr' a ddefnyddir yn bennaf yn y sector rhentu preifat.

Mae'r Gymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol wedi amcangyfrif y gallai'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad diwygio deiliadaeth gostio £45 miliwn, er y gellid diwygio deiliadaeth heb wneud môr a mynydd o hynny.⁷⁶

Yn yr Alban, mae cofrestru landlordiaid wedi bod yn orfodol ers 2006. Mae Shelter Scotland wedi mynegi pryderon am y cynllun gan ddweud yn 2009 nad yw cofrestru landlordiaid eto'n bodloni disgwyliadau ac na all wneud hynny o bosibl gan fod y cynllun yn methu â chael gwared ar y lleiafrif o landlordiaid gwael ac amddiffyn tenantiaid rhag arferion gwael.⁷⁷ Dywed Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad bod sefyllfa'r Alban wedi'i gwyrddroi bellach, gyda chynigion newydd ar waith i ddarparu Trwyddedu Detholus mewn ardaloedd lle ceir problemau. Maent am sicrhau bod Cymru'n osgoi'r camgymeriadau a wnaed yn yr Alban ac yn rhoi adnoddau i

⁷⁴ *Tenant Index*, Cymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol, Mai 2012.

⁷⁵ *Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat*, adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, Chwefror 2011, tud 17

⁷⁶ *Welsh Government Reforms will cost Housing sector £45m*, Cymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol, 20 Mai 2013 (*fel ar 14 Awst 2013*)

⁷⁷ *Landlord registration in Scotland: three years on*, April Shelter, 2009

Drwyddedu Detholus o'r dechrau - yn hytrach na pheryglu'r cyflenwad tai rhent.

Grant Refeniw Tai Cymdeithasol

Rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2013 y byddant yn rhoi £4 miliwn y flwyddyn am y 30 mlynedd nesaf, gan alluogi i dros £100 miliwn gael ei fenthyg gan gymdeithasau tai i ddatblygu cartrefi fforddiadwy newydd fel mesur ysgogi. Fodd bynnag, mae pryder am effaith cynlluniau o'r fath ar fantolenni landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac am allu Llywodraeth Cymru i rwymo llywodraethau olynol i anrhydeddu'r taliadau blynyddol o £4 miliwn dros 30 blynedd.⁷⁸ Er y gall model 'Bond Tai' gynyddu buddsoddi mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru, mae'n rhaid ei gynllunio, ei drafod a'i weithredu drwy ymgynghori â darparwyr tai cymdeithasol.

Tai Gwledig

Dangosodd adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree i anghenion tai gwledig yn 2008 fod y boblogaeth wledig yng Nghymru wedi tyfu 43,000 rhwng 1981 ac 1991 a rhyw 30,000 rhwng 1991 a 2001. Mae'r mwyafrif llethol o dai newydd mewn ardaloedd gwledig yn gysylltiedig â'r sector preifat hefyd, gan adael diffyg tai ar lefelau incwm isel fforddiadwy. Gall darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig fod yn anoddach am resymau amrywiol, fel trefi a phentrefi'n troi'n gartrefi i gymudwyr, pobl yn symud yno ar ôl ymddeol, cartrefi gwyliau a'r system gynllunio.⁷⁹ Mae Galluogwyr Tai Gwledig yn ceisio darparu gwasanaeth drwy weithio gydag ac ar ran cymunedau gwledig i fynd i'r afael â'r diffyg cartrefi fforddiadwy.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn rhoi pŵer i alluogwyr tai gwledig er mwyn iddynt allu nodi anghenion tai am brisiau fforddiadwy lleol. Gan weithredu ar argymhellion o adroddiad pwysig Sefydliad Joseph Rowntree, byddai'r Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn galluogi

⁷⁸ WAQ 65067, 10 Gorffennaf 2013

⁷⁹ *Rural Housing Need*, Sefydliad Joseph Rowntree, 2008, tud.21

rhwydwaith o alluogwyr tai gwledig a swyddogion tai gwag yn gweithio ledled Cymru i nodi lle mae problemau a cheisio cynnig atebion amserol a phriodol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gasglu tystiolaeth fanwl a soffistigedig ynglŷn ag anghenion tai gwledig a fforddiadwyedd.

Mae Lloegr bellach yn caniatáu tai marchnad agored ar safleoedd eithriedig gwledig fel croes-gymhorthdal i dai fforddiadwy. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad bod y gallu i roi croes-gymhorthdal ar gyfer unedau tai fforddiadwy gydag unedau marchnad agored yn allweddol⁸⁰, a bod angen ystyried cyllid datblygu yng Nghymru mewn ffordd realistig.

Hoffem weld y cynllun 'Build for Rent' sydd ar gael yn Lloegr yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. O dan y cynllun hwn, a lansiwyd mewn ymateb i Adolygiad Montague, mae Llywodraeth y DU yn cynnig benthyciadau bach i adeiladwyr a datblygwyr tai yn Lloegr, gyda chyllid cyfatebol yn cael ei ddarparu gan yr adeiladwyr. Nod hyn yw sbarduno cyflenwad o dai rhentu preifat newydd a chynnig cyfleoedd ar gyfer buddsoddi sefydliadol newydd yn y sector drwy leihau'r risg ymlaen llaw. Ar ôl ymateb brwd gan y sector i'r Gronfa, a oedd yn £200 miliwn i ddechrau, cynyddodd y Canghellor y cyllid sydd ar gael o £1 biliwn yng Nghyllideb 2013.⁸¹ Bydd adeiladu cartrefi sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer eu rhentu yn arwain at farchnad rentu fwy cytbwys, ynghyd â darparu swyddi adeiladu a sbarduno twf economaidd.

Mae tenantiaethau Deddf Rhenti yn parhau yn ddeiliadaeth amlwg yng nghefn gwlad. Rydym angen cyflenwad newydd o dai fforddiadwy, ac mae angen cynnwys y rhain felly yng nghynigion diwygio tenantiaeth Llywodraeth Cymru er mwyn i landlordiaid allu rhoi blaenoriaeth i anghenion tai fforddiadwy lleol dros etifeddu tenantiaethau Deddf Rhenti yn awtomatig gan bobl a allai fod ar incwm uwch ac felly heb fod angen rhenti â chymhorthdal.⁸²

⁸⁰ *Tackling the Housing Crisis in Wales*, Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, tud.15

⁸¹ *Up to 10,000 homes will improve the rental market*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 16 Ebrill 2013, fel ar 11 Hydref 2013

⁸² *Ibid*, Argymhelliad 5 (i) a (ii), tud.12

Llyfryddiaeth

- *400,000 homes with planning permission still waiting to be built*, Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, 22 Awst 2013
- *£91 million cash to tackle over 6,000 empty and derelict homes*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 20 Mehefin 2013
- *Cyfrifiad 2011*, ONS
- *2013 sees first time buyers flying onto the ladder*, Datganiad i'r wasg Halifax, 29 Gorffennaf 2013
- *A Vision for the Welsh High Street*, Y Ceidwadwyr Cymreig, Hydref 2012
- *A Vision for Welsh Investment*, Y Ceidwadwyr Cymreig, Ionawr 2013
- *Average salary and earnings*, ONS, 22 Tachwedd 2012
- *Average age of a homebuyer*, Banciau Clydesdale ac Yorkshire, Ebrill 2012
- *British Social Attitudes: the 29th Report*, London: NatCen Social Research 2012, Park A, Clery E, Curtice J, Phillips M ac Utting D
- *Cartref*, Dave Adamson, Awst/Medi 2012
- *Maniffesto Llywodraeth Leol Tai Cymunedol Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru*, Mai 2012
- *Consultation Response, Proposed Changes to Part L of Building Regulations*, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- *Create Streets*, Nicholas Boys Smith, Alex Morton, Policy Exchange, Ionawr 2013
- *Cyflenwi tai fforddiadwy gan ddefnyddio cytundebau adran 106: Cyfarwyddyd wedi'i ddiweddarau*, Llywodraeth Cymru, 2009
- *European Commission, Council Recommendation on UK's 2012 national reform programme*, Mai 2012

- *FOI 03686*, Cyngor Caerdydd, Awst 2013
- *Gross mortgage lending up 9% in March*, Cyngor Benthycwyr Morgeisi, 19 Ebrill 2013
- *Help for borrowers with small deposits will only work if Government gets the details right say mortgage banks*, Mindful Money, 20 Mawrth 2013
- *Papur Gwyn Cartrefi Cymru* Mai 2012
- *Households accepted as homeless by local authority area, gender and age of applicant, 2011-12*, StatsCymru, (fel ar 19 Mawrth 2013)
- *Housing options and solutions for young people in 2020*, Sefydliad Joseph Rowntree, Mehefin 2012
<http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/young-people-housing-options-summary.pdf>
- *House Price Index*, ONS, Chwefror 2013
- *Increasing the number of available homes*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 25 Chwefror 2013, Gov.UK, (fel ar 30 Ebrill 2013)
- *Ymchwiliad i ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru*, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Ebrill 2012
- *Interim Results for the six months to 31 December 2012*, Redrow plc, 26 Chwefror 2013
- *Landlord registration in Scotland: three years on*, April Shelter, 2009
- *LIFT (formerly HomeStake) - a shared equity scheme operating in Scotland*, Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi, 18 Chwefror 2013)
- *Laying the Foundations: A Housing Strategy for England*, Tachwedd 2011

- *Mortgage Finder, HSBC website, <https://mortgages.hsbc.co.uk/mortgage-comparison> (fel ar 4 Mawrth 2013)*
- *Cynllun gwarant morgais yn hwb i brynwyr tai ac adeiladwyr, Datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru, 13 Tachwedd 2012*
- *Mortgage Market boosting by lending schemes, say Redrow, <http://www.bbc.co.uk/news/business-21585450> (fel ar 26 Chwefror 2013)*
- *National Empty Homes Action Plan, Hydref 2009*
- *New dwellings completed by period and tenure, StatsCymru, (fel ar 16 Hydref 2013)*
- *Number of first-time buyers in Wales rises to highest point since 2007, Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi, 26 Chwefror 2013*
- *Our objectives, Houses4Homes.co.uk, (fel ar 45 Mawrth 2013)*
- *Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2013*
- *Redrow Boss blasts Welsh Government's housing policies, Walesonline, 26 Chwefror 2013*
- *Reforming the Right to Buy (2012), Wendy Wilson, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 5 Ebrill 2012*
- *Reinvigorating Right to Buy and One for One Replacement: Consultation, Summary of Responses and Government response to Consultation, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mawrth 2012*
- *Right to Buy Sales in England: 2013-14 Quarter 1 (Apr-Jun), 22 Awst 2013*
- *Rural Housing Need, Sefydliad Joseph Rowntree, 2008*
- *Quarterly Right to Buy Sales by Local Authority, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 26 Chwefror 2013*

- *Smoke alarms present at building fires by building type and financial year/Fires by detailed location and motive*, StatsCymru (fel ar 26 Mawrth 2013)
- *South and West Wales Affordable Housing Targets and Thresholds*, Asbri Planning, Mawrth 2013
- *Sbarduno Adeiladu Cartrefi yng Nghymru, Datganiad y Gweinidog*, 17 Gorffennaf 2013
- *Strong desire for home-ownership remains, but can it be fulfilled?*, Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi, 13 Mehefin 2012
- *Surveyors warning over derelict homes rise in Wales*, BBC Wales, 8 Ionawr 2013
- *Tackling the Housing Crisis in Wales*, Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Medi 2013
- *Ten year wait for first time buyers to raise a deposit*, Swyddfa'r Post, 11 Medi 2012
- *Tenant Index*, Y Gymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol, Mai 2012
- *Total social housing sales by period and provider type*, StatsCymru, (fel ar 16 Hydref 2013)
- *Lansio NewBuy Cymru, Datganiad Ysgrifenedig* Carl Sargeant, 20 Mawrth 2013
- *UK Housing Review, 2012 Briefing Paper*, Hal Pawson a Steve Wilcox
- *Understanding supply constraints in the Housing Market*, FTI Consulting, adroddiad a baratowyd ar gyfer Shelter, Gorffennaf 2012
- *Up to 10,000 homes will improve the rental market*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 16 Ebrill 2013, (fel ar 11 Hydref 2013)
- *Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 61189*, 19 Medi 2012

- *Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 62078, 5 Chwefror 2013*
- *Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 64312, 18 Mawrth 2013*
- *Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 62410, 7 Mawrth 2013*
- *Welsh Empty Property Initiative “House into Homes”, Lavender a Wilson, Mehefin 2012*
- *Welsh Government Reforms will cost Housing sector £45m, Y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl, 20 Mai 2013 (fel ar 14 Awst 2013)*
- *Whathouse.co.uk, NewBuy Cymru looking to be available in spring, according to HBF’s Stewart Baseley, 12 Mawrth 2013, (fel ar 22 Mawrth 2013)*